| | |
|---|---|
| **Enw:** | *Elinor Crouch-Puzey, Swyddog Polisi ac Ymchwil* |
| **Sefydliad:** | *Cymorth i Ferched Cymru* |
| **Cyfeiriad Ebost:** | *EliCrouch-Puzey@welshwomensaid.org.uk* |
| **Rhif ffôn:** | *02920 451 551* |
| **Cyfeiriad:** | *Tŷ Pendragon, Plas Caxton, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE* |
| **Dyma safbwyntiau:** | *Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) – yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.* |


**Ynglŷn â Cymorth i Ferched Cymru**

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau annibynnol arbenigol yng Nghymru yn y trydydd sector sy'n gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (*VAWDASV*), (sy'n cynnwys ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol ac aelodau rhanbarthol Fforymau Darparwyr Gwasanaethau Arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol).[i] Mae'r gwasanaethau hyn, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y Deyrnas Unedig, yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau yn ogystal â gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Fel corff ymbarél, ein prif bwrpas yw dileu cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel i oroeswyr, a'r rheini yn wasanaethau sy'n ymateb i anghenion, sy'n dangos cydraddoldeb rhywiol ac sy'n holistig. Cydweithiwn yn genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion ac arferion cymunedol yng Nghymru; darparwn gyngor, gwasanaethau ymgynghori, cefnogaeth a hyfforddiant i gyflenwi gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac o fewn cymunedau, a hynny er budd goroeswyr.

Rydym ni hefyd yn cyflenwi gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys, er enghraifft, Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a phartneriaeth Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol. Rydym yn treialu prosiect 'Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr' (*SEEdS*), sy'n grymuso goroeswyr trais a cham-drin i ddod at ei gilydd i ysbrydoli ac i ddylanwadu ar welliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus a fframweithiau comisiynu, ac i fod yn gymorth i newid agweddau.

Rydym ni hefyd yn cyflenwi Safonau Ansawdd Cenedlaethol Cymru, fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (a gefnogir gan Lywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. (Ceir mwy o wybodaeth ynghylch y

| |
|---|
| Safonau Ansawdd Cenedlaethol yma: http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/) |

**Crynodeb o'r argymhellion:**

- Mae Cymorth i Ferched Cymru yn pryderu bod gormod o bwyslais ar gam-drin domestig gan lawer o'r dangosyddion a'r mesurau a bod angen ei ehangu i gynnwys pob math o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae angen gwneud mwy i edrych ar sut y gellir ystyried agenda ehangach Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol trwy'r amcanion hyn a sut yr effeithir a chefnogir goroeswyr mathau eraill o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Mae gorddibyniaeth hefyd ar gyfiawnder cyfreithiol fel ffynhonnell data ar gyfer y dangosyddion a'r mesurau, a fydd yn adlewyrchu carfan fach yn unig o oroeswyr a drwgweithredwyr. Dylid defnyddio data llinell gymorth Byw Heb Ofn Cymorth i Ferched Cymru yn y dangosyddion a'r mesurau er mwyn rhoi darlun cynhwysfawr o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru.
- Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i sut y deir o hyd i oroeswyr a drwgweithredwyr yn fwy buan gan ddefnyddio ffynonellau data sy'n mesur ymyrraeth gynharach.
- Mae Cymorth i Ferched Cymru yn pryderu nad yw'r dangosyddion sy'n ymwneud â drawgweithredwyr, gwsanaethau a hyfforddi wedi ystyried ansawdd cyflenwi'r darpariaethau hyn nac ychwaith fesurau'r canlyniadau iddynt.
- Dylid defnyddio data o raglenni achrededig drwgweithredwyr i fesur canlyniadau yn ogystal ag argaeledd rhaglenni achrededig ar gyfer drwgweithredwyr perygl uchel a 'pherygl is' ar draws Cymru. Yn ogystal â hyn, dylid ceisio adborth gan oroeswyr lle mae eu drwgweithredwyr wedi'u clustnodi ar gyfer rhaglenni newid ymddygiad.
- Gan fod anghydraddoldeb rhywiol yn achosi ac yn ganlyniad i Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, dylid mesur gweithgarwch ynghylch sut y mae agweddau i hyn yn cael eu herio a'u hatal. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn galw am ddangosyddion ychwanegol sy'n edrych ar y newid mewn agweddau tuag at Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, y cynnydd mewn atgyfeiriadau gan y sector cyhoeddus ac ar fesur canlyniadau cymorth.

| Cwestiwn 1 | **Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y set o ddangosyddion arfaethedig, ar y cyfan, yn llwyr asesu a yw cynnydd yn cael ei wneud o ran cyflawni'r Amcanion a amlinellwyd o fewn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol?**<br><br>Mae Cymorth i Ferched Cymru yn pryderu na fydd rhai o'r dangosyddion yn medru asesu a wnaed cynnydd tuag at gyflawni'r Amcanion a osodwyd. Pryderwn fod diffyg ystyriaeth i fesur gwelliannau yn y sector cyhoeddus datganoledig lle mae dyletswyddau uniongyrchol o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (Y Ddeddf). Yn ogystal â hyn, mae angen casglu data sy'n berthnasol i Gymru ac i ehangu'r data a gesglir ar hyn o bryd. |
|---|---|

| | |
|---|---|
| | Pryderwn hefyd fod y dangosyddion yn dangos un mesur yn unig sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc a effeithir gan Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.<br><br>O dan Amcan 1, nid yw cynnydd mewn adrodd o angenrheidrwydd yn dangos bod cynnydd mewn ymwybyddiaeth. Ymhelaethir ar y pwynt hwn yn ein hymateb i gwestiwn 2. Mae Amcan 1 hefyd yn gofyn am fesur ychwanegol: sut mae agweddau tuag at Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael eu herio, eto ymhelaethir arnynt ymhellach yng nghwestiwn 4.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae Dangosydd 5, sy'n cyfeirio at gynnydd mewn achosion yn ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sy'n arwain at arestio, yn ddangosydd cyfyngedig ar gyfer Amcan 3, sy'n edrych ar ddal drwgweitherdwyr i gyfrif. Dylai hyn fod yn fwy eang, gyda disgwyliad bod asianataethau statudol eraill a'r cyhoedd ehangach yn chwarae rôl o safbwynt dal drwgweithredwyr i gyfrif.<br><br>Mae Dangosydd 9, sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn y cymorth priodol, o dan Amcan 10, yn canolbwyntio ar fynediad cyfartal at wasanaethau ar draws Cymru. Mynnwn fod y dangosydd yn enwi'n benodol wasanaethau arbenigol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol er mwyn cyflawni'r amcan o gael 'gwasanaethau sydd wedi'u llywio gan anghenion, wedi'u seilio ar gryfderau as sy'n ymateb i rywedd'.<br><br>Yn olaf, o dan Ddangosydd 10, 'cynnydd mewn hyder a mynediad at gyfiawnder'; pryderwn nad yw ymateb cyfredol cyfiawnwder troseddol i oroeswyr bob amser wedi ei lywio gan anghenion nac yn ymateb i rywedd. Fodd bynnag, gobeithiwn y bydd y newidiadau a nodir yn y Bil Trais Domestig newydd gan Lywodraeth y DU, gan gynnwys dileu croesholi yn y llysoedd gan ddrwgweithredwyr a mesurau arbennig rhagdybiedig, yn gwella'r profiad. Ymhelaethir ymhellach ar ein sylw ar hyn o dan gwestiwn 6. |
| **Cwestiwn 2** | **Oes yna unrhyw ddangosyddion a argymhellir y credwch y gellir gwella arnynt? Cadarnhewch os gwelwch yn dda eich bod wedi defnyddio'r templed a roddir yn Atodiad B**<br><br>**Cwblhawyd Atodiad B**<br><br>Nid yw Dangosydd 1 yn adlewyrchu Amcan 1 sef i gynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau. Nid yw cynnydd mewn adrodd i asianataethau yn mesur yr amcan hwn. Rhoddwyd ymateb gennym i ddangosyddion arfaethedig ym mis Tachwedd 2108 gan awgrymu y dylid newid hwn i edrych ar gynnydd o ran cysylltu ag asianataethau – megis gwasanaethau arbenigol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r llinell gymorth Byw Heb Ofn yn ogystal â galwadau i ChildLine er mwyn casglu pryderon gan/ynghylch plant a phobl ifanc. Argymhellwn felly y coladir data o'r llinell gymorth Byw Heb Ofn a'n rhwydwaith cenedlaethol o wasanaethau arbenigol yn ymwneud â'r nifer o bobl sy'n cael mynediad at wasanaethau. Yn |

| | |
|---|---|
| | ogystal â hyn, mae Dangosydd 1 yn argymell mesur cynnydd mewn *adrodd.* Nid yw adrodd yn dangos ymwybyddiaeth na newidiadau mewn agwedd, yn arbennig gan fod y fynhonnell data a awgrymir yn Ddata Troseddau wedi'u Cofnodi gan yr Heddlu. Mae llawer o dystiolaeth i ddangos nad yw holl oroeswyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn adrodd i'r heddlu, felly efallai na fyddai cynnydd mewn ymwybyddiaeth yn cael ei ddangos trwy gyfrwng y llwybr hwn. Mae dangosyddion sy'n canolbwyntio ar ddata cyfiawnder troseddol yn canolbwyntio'n unig ar achosion risg uchel, tra bod y data a goladir gan aelodaeth Cymorth i Ferched Cymru a'r llinell gymorth Byw Heb Ofn yn ffurfio'r set fwyaf o ddata sy'n berthnasol i Gymru ac felly dylid ei defnyddio ar gyfer sawl dangosydd. Galwn hefyd am fesur atgyfeiriadau a wneir gan wasanaethau cyhoeddus megis ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a thîmau tai er enghraifft, y mae ganddynt hefyd ddyletswydd o dan Y Ddeddf. Mae hyn yn gyfle hefyd i fesur effaith ymgyrch Paid Cadw'n Dawel; gan edrych ar y gwahaniaeth rhwng adrodd gan ddioddefwyr ac adrodd gan drydydd parti.<br><br>Pryderwn nad yw'r dangosyddion sy'n ymwneud â drwgweithredwyr, gwasanaethau a hyfforddi wedi ystyried ansawdd cyflenwi'r darpariaethau hyn nac ychwaith fesurau canlyniadau ar eu cyfer. Gan fod disgwyl i'r mwyafrif o wasanaethau ddarparu canlyniadau i gyllidwyr – dylid coladu hwn yma hefyd. |
| **Cwestiwn 3** | **Oes yna unrhyw ddangosyddion a argymhellir y credwch y dylid eu dileu?**<br><br>Mae Cymorth i Ferched Cymru yn teimlo dylai Dangosydd 5, 'digwyddiadau cysylltiedig sy'n arwain at arestio, erlyn neu gollfarnu' gael ei ddiwygio neu y dylid ychwanegu ato fel a ganlyn; Er ein bod yn cytuno y dylai drwgweithredwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gael eu dal i gyfrif a bod y system cyfiawnder troseddol yn chawrae rôl bwysig yn hyn o beth, pryderwn na fydd arestio, erlyn a chollfarnu yn unig yn darparu darlun cywir. Mae'n ddibynnol ar oroeswyr yn adrodd i'r heddlu, sydd, fel y pwysleiswyd eisoes, yn hepgor menywod nad ydynt yn dewis y llwybr hwn ac mae'n rhagdybio lefel o droseddu sy'n cyrraedd trothwy'r system cyfiawnder troseddol, nid yw'n ystyried achosion lle bo arestio'n digwydd ond lle na ddilynir unrhyw erlyniad gan y Gwasanaeth Erlyn. Mae hefyd mewn cyferbyniad ag Amcan 4 a Dangosydd 7 sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth a mynediad cynnar ato. Byddem yn dadlau bod ymyrraeth gynnar sy'n wirioneddol effeithiol hefyd yn cynnwys cyfleoedd i ddrwgweithredwyr fynd i'r afael yn gynharach â'u hymddygiad. Yn Cymorth i Ferched Cymru gweithiwn mewn partneriaeth â Respect ar fodel Newid sy'n Para1. Yn rhan o hyn, mae Respect yn gweithio i adnabod dynion a gweithio gyda nhw yn llawer cynharach ar eu taith troseddu, gan amharu ar eu hymddygiad ar y dechrau. |
| **Cwestiwn 4** | **Oes yna unrhyw ddangosyddion eraill y credwch y dylid eu cynnwys? Cadarnhewch os gwelch yn dda eich bod wedi defnyddio'r templed a roddir yn Atodiad B**<br><br>**Cwblhawyd Atodiad B.**<br><br>Byddem yn galw am ddangosyddion ychwanegol sy'n edrych ar newid agweddau |

| | |
|---|---|
| | tuag at Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, cynnydd mewn atgyfeiriadau gan y sector cyhoeddus ac sy'n mesur canlyniadau cymorth – cyfeirir at fanylion pellach am y rhain drwy gydol ein hymateb.<br><br>Fel y nodwyd yng nghwestiwn 1, o dan Amcan 1 teimlwn y dylid cynnwys dangosydd ychwanegol sy'n ymwneud yn benodol â herio agweddau. Er enghraifft, gallai'r mesur ystyried yr hyn y mae sefydliadau ac asiantaethau yn ei wneud i herio cam-drin, o fewn heddluoedd nad ydynt yn esgusodi cam-drin gan gyflogedigion neu ddefnyddwyr gwasanaeth a chyhoeddusrwydd sy'n amlwg yn gwrthod cam-drin, ac yn ei wneud yn glir na chaiff ei oddef. Yn ogystal â hyn, dylid ehangu Dangosydd 2 i gynnwys ystyried sut y cefnogir aeloadau o'r cyhoedd i herio ymddygiad.<br><br>Teimlwn hefyd bod angen dangosydd ychwanegol yn dilyn Dangosydd 9 o dan Amcan 6, er mwyn cynnwys y nifer o blant o gefnogir gan weithwyr cymorth plant penodol o fewn llochesau ac yn y gymuned. Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi pwysleisio ers tro byd y diffyg cymorth peondol ar gyfer plant a phobl ifanc a effeithir gan Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r diffyg cyllido dybryd ar gyfer y gwaith arbenigol hwn. Felly byddai dangosydd i fesur yn benodol sut y cefnogir plant a phobl ifanc pan fônt yn ymwneud â'r sector arbenigol yn gymorth tuag at ddod i ddeall ble mae'r bylchau. Dylia'r ffynhonnell data ddod felly o'r sector arbenigol. |
| **Cwestiwn 5** | **Sut ydych chi'n credu y dylem drosglwyddo dangosyddion cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i bobl a chymunedau Cymru?**<br><br>Dylid rhoi ystyriaeth i sut y mae'r dangosyddion yn ymwneud â phobl yn eu bywyd pob dydd a dylai'r wybodaeth fod ar gael yn hawdd a hynny mewn iaith hygyrch.<br><br>Dylid trosglwyddo'r dangosyddion i asiantaethau cyhoeddus a statudol perthnasol ynghyd â'r hyn y disgwylir ganddynt er mwyn cyflawni'r amcanion.<br><br>Ar gyfer aelodau'r cyhoedd, dylid gwneud manteision y dangosyddion i gymunedau yn gwbl glir. Dylid cynnwys yn hyn fodelau megis Newid sy'n Para. |
| **Cwestiwn 6** | **Ydy'r mesuaru arfaethedig yn briodol ar gyfer adrodd yn erbyn dangosyddion cenedlaethol arfaethedig Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol?**<br><br>Pryderwn nad yw rhai o'r awgrymiadau yn gwbl fesuradwy a, heb nodi ansawdd y ddarpariaeth neu'r canlyniadau disgwyliedig, na fydd gan fesurau 5, 6, 9 a 10 y canlyniadau y byddem yn gobeithio eu derbyn.<br><br>O dan Ddangosydd 1 rydym yn falch o weld bod Trais ar Sail Anrhydedd, fel y'i gelwir, wedi ei gynnwys ym Mesur 1.3. Wrth ymateb i'r dangosyddion arfaethedig ym mis Tachwedd 2018 fe bwysleisiwyd gennym fod y dangosyddion blaenorol yn cynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol yn unig a bod angen ehangu ar hyn. Fodd bynnag, |

| | |
|---|---|
| | seilir y mesurau arfaethedig ar gyfer y dangosydd hwn ar Ddata Troseddau wedi'u Cofnodi gan yr Heddlu. Mae hyn yn broblem oherwydd y nifer o achosion nad ydynt yn cael eu hadrodd i'r heddlu. Pryderwn hefyd am oddrychedd y modd y cofnodir troseddau a sut y gall hyn amrywiol rhwng staff ac ar draws lluoedd. Argymhellwn y dylai'r ffynhonnell data hefyd gasglu'r nifer o gysylltiadau a wneir â'r llinell gymorth Byw Heb Ofn fel mesur i ddangos y nifer o bobl sy'n ceisio cymorth neu wybodaeth yn ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Byddai defnyddio hyn fel mesur hefyd yn help i gasglu pob math o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Yn osgystal â hyn, gellir ychwanegu ato gan ddata o Cymorth i Ferched Cymru a'r nifer o oroeswyr sy'n cael mynediad at wasanaethau yng Nghymru trwy gyfrwng ein cyflwyniadau data chwarterol. Byddem yn argymell felly fod y ffynhonnell data ar gyfer Amcan 1 yn ehangach ac yn cynnwys, fel y soniwyd, ddata gan wasanaethau arbenigol a'r llinell gymorth Byw Heb Ofn.<br><br>Pryderwn fod Mesur 2.1 yn ddiffygiol gan ei fod yn ystyried trais corfforol yn unig ac nid mathau eraill o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Trwy ofyn a yw pobl yn meddwl 'ei fod bob amser yn annerbyniol i daro neu slapio partner' honnir bod cam-drin gan bartner agos yn seiliedig ar ddigwyddiad yn hytrach na chydnabod bod trais corfforol yn un dacteg a ddefnyddir o fewn cyd-destun rheolaeth gymhellol. Mae'r mesur hefyd yn canolbwyntio ar gam-drin domestig yn hytrach nag ar bob math o gam-drin. Byddai felly yn methu â chasglu agweddau tuag at drais rhywiol, treisio, enwaedu benywod, aflonyddu rhywiol neu gam-drin ar lein. Dylai'r mesur edrych felly ar agweddau tuag at gam-drin o fewn cyd-destun ehangach. Rydym yn falch bod y dangosyddion drafft yn nodi efallai bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried ymchwil ehangach, a argymhellwyd gennym yn ein hadborth cychwynnol ym mis Tachwedd 2018. Byddem yn argymell fel ffynhonnell data arolygon o agweddau unigolion tuag at Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac arolwg o ymgawedd busnesau tuag at gydraddoldeb rhywiol a pholisïau.<br><br>Mae defnyddio Arolwg Troseddu Lloegr a Chymru hefyd yn cyfyngu ar y mesur hwn, gan fod hwn eto yn canolbwyntio ar ddealltwriaeth gul o gam-drin domestig lle bo trais corfforol ac eto nid yw'n ystyried mathau eraill o drais a cham-drin.<br><br>Croesawn gynnwys Cymorth i Ferched Cymru fel ffynhonnell data ar gyfer Amcan 2. Fodd bynnag, ar gyfer mesur 3.1 teimlwn y byddai mesur canlyniadau sesiynau ymwybyddiaeth ysgolion efallai yn cynnig gwell dealltwriaeth o gynnydd mewn ymwybyddiaeth o'i gymharu â mesur presenoldeb mewn sesiynau yn unig. Mae'r 'materion i'w hystyried' o dan yr adran hon hefyd yn nodi; y 'byddai'r diffiniad o bobl ifanc at ddibenion y dangosydd yn bobl dros 16 mlwydd oed i 24 mlwydd oed'. Nid yw'r mesur felly, sy'n canolbwyntio ar blant ysgol yn ystyried anghenion y rheini nad ydynt mewn addysg neu hyfforddiant neu leoliadau ieuenctid eraill, pryderwn felly fod grwpiau mawr o bobl ifanc na fyddai'n cael eu targedu gan y mesur hwn. Byddem yn argymell casglu data yn gysylltiedig â darparu adnoddau addysg rhyw a pherthnasoedd ynghyd â disgwyliad ar ysgolion i ddangos tystiolaeth o'u hymagwedd tuag at gydraddoldeb rhywiol ac addysg rhyw a pherthansoedd. Yn olaf gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried cynnwys y dangosydd hwn fel rhan o |

| | |
|---|---|
| | arolygon Estyn.<br><br>Pryderwn fod mesur 4.1 unwaith eto wedi'i gyfngu i gam-drin domestig a thrais corfforol yn benodol. Byddem yn argymell yn gryf y dylai'r mesur hwn hefyd ystyried bwlio rhywiol, cam-drin rhywiol ac aflonyddu a cham-drin ar-lein, o ystyried y demograffig ifanc. Yn ogystal â hyn, yr ydym eto'n bryderus am y defnydd o ddata Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) gan ein bod yn teilmlo na fyddai hyn yn fesur cywir o agweddau plant a phobl ifanc. Mesur amgen felly fyddai gweu'r cwestiwn hwn i sesiynau ymwybyddiaeth ysgolion er mwyn casglu ymateb ehangach, gan sicrhau ei fod wedi'i deilwra i ofyn am bob math o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Hefyd, fel yr awgymwyd yn ein hadborth blaenorol ym mis Tachwedd 2018, byddem yn argymell defnyddio'r arolwg cenedlaethol i blant sy'n gysylltiedig â gwaith y Comisiynydd Plant.<br><br>Mae mesurau 5.1 a 5.2 heyd yn gyfyngedig i ffocws ar erlyniadau cam-drin domestig, nad yw'n gynrychioliadol o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ehangach. Dylid ychwanegu mesurau ychwanegol ynghylch arestiadau/collfarnau sy'n ymwneud â mathau eraill o gam-drin e.e. treisio, troseddau rhywiol, rheolaeth gymhellol, er mwyn rhoi darlun mwy cyflawn o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Pryderwn hefyd na fydd y mesurau hyn yn unig yn ateb Amcan 3, nad yw'n gosod pwyslais, fel y nodwyd eisoes yn yr ymateb hwn, ar asiantaethau eraill yn dal drwgweithredwyr i gyfrif a herio'u hymddygiad. Mae Cymorth i Ferched Cymru, er enghraifft, yn darparu hyfforddiant Menter Paid Cadw'n Dawel mewn prifysgolion a cholegau, sy'n ceisio cefnogi myfyrwyr i herio ymddygiad amhriodol ymhlith eu cyfoedion.<br><br>Hefyd bydd y mesurau fel ag y maent yn dal canran fach yn unig o ddrwgweithredwyr, y rheini sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer y system cyfiawnder troseddol neu'r rheini y mae eu goroeswyr yn dymuno eu herlyn; gwyddom er enghraifft fod ambell ddemograffeg o oroeswyr yn annhebygol o wneud hyn, er enghraifft menywod hŷn, menywod sydd wedi cael profiad negyddol blaenorol o'r system cyfiawnder troseddol, neu fenywod a chanddynt statws mewnfudo ansicr. Er mwyn cyflawni Amcan 3, argymhellwn yn gryf y dylid rhoi ystyriaeth i sut y gellir dal grŵp ehangach o ddrwgweithredwyr i gyfrif ac felly roi cyfle i fwy o oroeswyr gael eu cefnogi a'u diogelu trwy gyfrwng ymyriadau priodol ar gyfer drwgweithredwyr.<br><br>Byddai Cymorth i Ferched Cymru hefyd yn dadlau dros gynnwys mesur ychwanegol o dan Amcan 3; mesur o ddiogelwch gwell i ddioddefwyr/goroeswyr. O ran ffynhonnell y data, byddem yn argymell casglu data bodlonrwydd dioddefwyr yn dilyn rhyngweithio â rhaglen drwgweithredwyr a sicrhau bod data ar gael ar gyfer canlyniadau'r llysoedd.<br><br>Croesawn y ffaith fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd rhaglenni achrededig i ddrwgweithredwyr a theimlwn felly y dylai'r ffynhonnell data ar gyfer Mesur 6.1 fod yn ehangach na chyfraddau aildroseddu. Mae hwn yn fesur cyfyngedig iawn; mae rhaglenni drwgweithredwyr er enghraifft wedi dangos bod y defnydd o drais corfforol a rhywiol yn lleihau'n ddramatig ar ôl ymyriad llwyddiannus, ond nad |

| | |
|---|---|
| | yw mathau eraill mwy cynnil o gam-drin yn gostwng ar yr un gyfradd, er eu bod yn gostwng rhywfaint[1]. Yn ogystal â hyn, mae nifer o oroeswyr yn byw am flynyddoedd gyda phartneriaid sy'n cam-drin heb ddioddef unrhyw drais corfforol. Fellly mae gostyngiad mewn cyfraddau aildroseddu yn annhebygol o roi darlun cywir o ymddygiad drwgweithredwyr neu a yw ymyriadau wedi gweithio ai peidio.<br><br>Byddem yn argymell felly y defnyddir data o raglenni achrededig ar gyfer drwgweithredwy i fesur y canlyniadau hyn ynghyd â mesur argaeledd rhaglenni achrededig ar gyfer drwgweithredwyr risg uchel a 'risg is', a hynny ar draws Cymru. Dylid ceisio adborth hefyd gan oroeswyr y clustnodwyd eu drwgweithredwyr ar gyfer rhaglenni newid ymddygiad.<br><br>Yn ogystal â hyn, fel y nodwyd, dylid gwneud mwy i gefnogi asiantaethau statudol eraill a'r cyhoedd i ddal drwgweithredwyr i gyfrif yn ddiogel. Felly gellir cael data ar sut mae cyflogwyr yn rheoli drwgweithredwyr a'r hyn y mae lleoliadau cymdeithasol, megis bariau a mannau cyhoeddus eraill, yn ei wneud i herio ymddygiad difrïol a gwreig-gasaol.<br><br>Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw Mesur 7.1 yn ddangosydd priodol o ymyrraeth cynnar. Byddem hefyd yn dadlau nad yw Mesur 7.2 yn dangos ymyrraeth gynnar lwyddiannus. Mae Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA), megis MARAC, yn benodol ar gyfer achosion o gam-drin domestig risg uchel. Dylai atgyfeiriadau i MARAC ac IDVA fod yn ddangosyddion ar gyfer atal niwed difrifol pellach neu farwolaeth, yn hytrach nag yn fesuaru ataliad/ymyrraeth gynnar. Yn ogystal â hyn, nid Mesurau 7.4 a 7.5 fydd y ddangosyddion gorau o ymyrraeth gynnar mewn achosion o briodas dan orfod a thrais yn seiliedig ar anrhydedd, fel y'i gelwir. Anogwn Lywodraeth Cymru felly i ddefnyddio canllawiau Dull Addysg Gyfan i fonitro'r nifer o athrawon a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant sydd wedi'u hyfforddi i adnabod arwyddion cynnar plentyn sydd mewn perygl o enwaedu benywod, priodas dan orfod neu fathau eraill o drais ar sail anrhydedd, fel y'u gelwir. Bydd y dull hwn hefyd yn cefnogi mesur 7.5 ar nifer yr atgyfeiriadau diogelu i'r rheini sydd mewn perygl o enwaedu benywod, fodd bynnag byddem yn awgrymu fod hyn yn cael ei ehangu i briodas dan orfod neu lle mae pryderon am bobl ifanc yn byw gyda thrais ar sail anrhydedd, fel y'i gelwir.<br><br>Hefyd, gan fod anghydraddoldeb rhywiol yn achos ac yn ganlyniad Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yna dylid mesur gweithgarwch sy'n ymwneud â sut mae agweddau tuag at hyn yn cael eu herio a'u hatal. Dylai mesurau ganolbwyntio ar y nifer a'r amrywiaeth o bobl a dargedir trwy ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yn ogystal â'r nifer o wasanaethau statudol a chyhoeddus sy'n holi am Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol fel mater o ymholi rheolaidd neu benodol. Gall hyn hefyd helpu adeiladu ar Fesur 8.1 ac 8.2. Gwyddom fod rhai asiantaethau nad ydynt yn arbenigol yn dod i gysylltiad â goroeswyr trais a cham-drin yn gynt o lawer na'r sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig |

[1] https://www.dur.ac.uk/resources/criva/ProjectMirabalexecutivesummary.pdf

a Thrais Rhywiol a'u bod felly mewn sefyllfa freintiedig i sylwi ar yr arwyddion yn gynharach ac felly i ymyrryd yn gynt. Rhaid cefnogi hyn, ond gyda mynediad at gymorth ymyrraeth gynnar, gan y sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ledled Cymru.

Byddem yn argymell fod Llywodraeth Cymru yn defnyddio prosiect Adran Datblygu Rhyngwladol y DU (DFID) i ymchwilio i'r hyn sy'n gweithio i atal trais yn erbyn menywod a merched, fel yr awgrymwyd gennym yn ein hadborth cychwynnol ym mis Tachwedd 2018.

Dylid hefyd ddefnyddio mesur o effeithiolrwydd a bodoalaeth cynlluniau cymunedol megis Newid sy'n Para a Llysgenhadon Holwch Fi. Bydd prosiect Cymorth i Ferched Cymru, Newid sy'n Para, yn gwerthuso a yw'r model yn helpu i newid systemau yn ei ymagwedd tuag at Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a bydd yn mesur y cynnydd mewn sawl ffordd, gan ganolbwyntio ar dair elfen y cynllun;

Holwch Fi; cyrhaeddiad llysgenhadon cymunedol a'u heffeithiolrwydd wrth dorri'r mudandod ynghylch Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mesurir hyn trwy fonitro sawl unigolyn sy'n elwa ar weithgareddau codi ymwybyddiaeth a faint o oroeswyr sy'n cael eu cyfeirio a'u cefnogi i gael cymorth.
Gweithwyr Proffesiynol y gellir Ymddiried ynddynt; hyfforddiant i wasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol nad ydynt yn arbenigwyr i ymateb yn gynnar i oroeswyr a drwgweithredwyr, wedi'i fonitro trwy lefelau uwch o atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth arbenigol gan ystod ehangach o wasanaethau nad ydynt yn arbenigol a hynny'n seiliedig ar a yw'r gefnogaeth yn cael ei harwain gan anghenion a'i seilio ar gryfderau ac felly a yw'n unol â'r cynllun.
Gwasanaethau arbenigol; cefnogi symud o ddull traddodiadol a 'arweinir gan risg' tuag at ymateb sydd wedi'i arwain gan anghenion, sy'n seiliedig ar gryfderau ac sydd wedi'i lywio gan drawma, a hynny drwy ymgysylltu â sefydliadau i ddatblygu adnoddau a thrwy ymgynhgori â goroeswyr er mwyn sicrhau'r llwybr cyflymaf a mwyaf effeithiol at gymorth. Bydd y gwerthusiad yn ceisio darganfod sut mae'r dull hwn yn effeithio ar oroeswyr ac a yw'n cynorthwyo gyda rhyddid hirdymor rhag cam-drin.

Yn olaf, dylid mesur nifer y cysylltiadau a wnaed â'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn, gan y gellir dadlau fod hyn yn gynt yn nhaith y goroeswr nag ymyrraeth gan IDVA neu MARAC. Er enghraifft, mae Byw Heb Ofn yn casglu data gan nifer o gysylltiadau a wneir â'r llinell gymorth, negeseuon testun, ebost a sgyrsiau ar-lein. Mae hefyd yn cofnodi pwy gysylltodd, ai goroeswr neu weithiwr proffesiynol, ac o ble roedd y gweithiwr proffesiynol yn galw, lleoliad daearyddol y goroeswr a'r rheswm dros yr alwad. Mae hefyd yn monitro i ble y gwnaed atgyfeiriadau gan y llinell gymorth, er enghraifflt, i loches.

O dan Ddangosydd 8, 'y rheini sydd mewn swyddi perthnasol wedi'u hyfforddi i adnabod ac ymateb yn briodol', dylid cynnwys mesur ychwanegol sy'n ceisio mesur sut mae gwybodaeth wedi'i gwreiddio. Gellir gwneud hyn drwy sesiynau dilynol

| | |
|---|---|
| | gyda'r hyfforddeion, adolygiadau o arferion o fewn sefydliadau, trwy ystyried a fu cynnydd yn nifer y goroeswyr a glustnodwyd gan wasanaeth ac a yw blaenoriaethau o fewn y gwasanaeth hwnnw wedi newid. Er egnhraifft, a yw'r rheolwyr yn cydnabod y rôl bwysig y mae'r sefydliad yn ei chwarae wrth ddileu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig aThrais Rhywiol ac a ydynt wedi neilltuo amser ac adnoddau i sicrhau y gwneir hyn?<br><br>O ran ffynhonnell data ar gyfer Mesur 8.2 – bydd sector arbenigol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn coladu'r data ar hyfforddiant a ddarparwyd a chaiff ei grwpio yn ôl y math o hyfforddiant ydoedd. Felly nid ydym yn pryderu y bydd hyfforddint o dan y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn cael ei gyfrif ddwywaith. Bydd gwasanaethau yn cadw cofnod o'r math o hyfforddinat ynghyd â'r nifer o sesiynau o hyfforddi a ddarperir at ddibenion monitro a chyllido. Byddem yn argymell felly mai'r ffynhonnell data ar gyfer mesur 8.2 yw sector arbenigol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.<br><br>Pryderwn na fyddai Mesur 9.1 yn dangos bod gan oroeswyr fynediad at 'wasanaethau sydd wedi'u harwain gan anghenion, wedi'u seilio ar gryfderau ac sy'n ymateb ar sail rhywedd'. Fe fydd y dangosydd fel y saif ar hyn o bryd yn cofnodi nifer yr atgyfeiriadau i lochesau neu wasnanethau yn y gymuned yn unig, ac nid ansawdd y gwasanaeth. Ni fydd ychwaith yn cofnodi mynediad at wasnaethau eraill Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, megis cymorth ar gyfer trais rhywiol neu wasanaethau trais ar sail anrhydedd, fel y'i gelwir. Byddem yn argymell felly fod pob tendr yng Nghymru yn cynnwys gofyniad i achredu gwasanaethau arbenigol â safonau sy'n bodoli eisoes, er enghraifft:<br><br>Safonau Ansawdd Gwasanaethau Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru ar gyfer gwasnaethau cam-drin domestig<br>Rape Crisis Lloegr a Chymru neu The Survivors Trust ar gyfer trais rhywiol<br>Safonau Imkaan ar gyfer gwasanaethau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig<br>Respect ar gyfer safonau drwgweithredwyr.<br><br>Nid yw Mesur 9.1 yn ystyried chwaith y nifer o oroeswyr na allant gael mynediad at wasanaethau, naill ai oherwydd rhestrau aros hir neu am nad oes modd eu lletya/cefnogi o ganlyniad i ddiffyg adnoddau. Gall Cymorth i Ferched Cymru gasglu hyn ar ran y gwasanaethau arbenigol sy'n aelodau gyda ni ac fe'i amlygir yn ein Hadroddiadau Blynyddol ar Gyflwr y Sector[2].<br><br>Ni ddylai dangosydd 10 a mesur 10.1 ganolbwyntio ar fodlonrwydd â'r system cyfiawnder troseddol, ond yn hytrach ar fynediad at wasnaethau i oroeswyr a bodlonrwydd â nhw. Dylai'r adborth fod yn gysylltiedig â phob math o Drais yn erbyn Menywod,Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, p'un a fu'r system cyfiawnder troseddol yn cymryd rhan ai peidio. Felly dylai ffynhonnell y data ganolbwyntio ar adborth gan oroeswyr a gasglwyd gan wasanaethau arbenigol. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn casglu hwn gan y gwasanaethau hynny sy'n aelodau gyda ni, sy'n |

[2] http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/01/State-of-the-Sector-2018-Eng.pdf

| | |
|---|---|
| | cwmpasu mwy na 70% o wasanaethau arbenigol a phob ardal ddaearyddol yng Nghymru. |
| **Cwestiwn 7** | **A oes yna unrhyw fylchau hysbys yn y data?**<br><br>Oes, mae data o wasanaethau arbenigol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi'i hepgor ynhyd â data o Linell Gymorth Byw Heb Ofn. Caiff y data hwn ei fonitro bob chwarter a byddai'n rhoi darlun mwy perthnasol na dibynnu er enghraifft ar Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW).<br><br>Mae Cymorth i Ferched Cymru yn awgrymu'r canlynol i fynd i'r afael â rhai o'r 'bylchau'. Er enghraifft;<br><br>Amcan 1:<br>Nifer y goroeswyr sy'n cael mynediad at wasanaethau trwy'r gwasanaethau hynny sy'n aelodau gyda ni, y gellid ei ddefnyddio i ddangos cynnydd mewn adordd.<br>Nifer y cysylltiadau a wneir â Llinell Gymorth Byw Heb Ofn er mwyn dangos y nifer o bobl sy'n cael mynediad at gymorth neu wybodoaeth.<br>Beth neu pwy yw'r ffynhonnell atgyfeirio – a allai ddangos cynnydd mewn ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau.<br><br>Amcan 2:<br>Data ar nifer y plant sy'n defnyddio cyfres o wasanaethau rhaglen Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch (S.T.A.R) – cyfres o wasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal a rhaglenni grŵp i bob oed hyd at 25 mlwydd oed.<br><br>Amcan 3:<br>Atgyfeiriadau i raglenni achrededig ar gyfer drwgweithredwyr trwy gyfrwng Respect.<br>Monitro canlyniadau'r rhaglenni hyn.<br><br>Amcan 4:<br>Mae'n canolbwyntio gormod ar achosion risg uchel. Dylid defnyddio data Newid sy'n Para yma.<br>Dylid defnyddio data cyfeirio o wasanaethau cyhoeddus i ddangos cynnydd mewn ymatebolrwydd.<br>Mesuriadau ar gyfer gwaith ataliol.<br><br>Amcan 5:<br>Yn ogystal â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, gall Cymorth i Ferched Cymru ddarparu data ar nifer y gweithwyr plant a phobl ifanc a hyfforddwyd drwy'r rhaglen Diogelwch, Ymddiredaeth a Pharch.<br>Gallwn hefyd fonitro atgyfeiriadau sy'n gysylltiedig â Gofyn a Gweithredu. |

| | |
|---|---|
| | Amcan 6:<br>Nifer y gwasanaethau arbenigol wedi'u hachredu gan Safonau Ansawdd Gwasanaethau Cenedlaethol<br>Nifer y goroeswyr sy'n cael mynediad at wasanaethau Cymorth i Ferched Cymru<br>Nifer y goroeswyr nad ydynt yn medru cael mynediad at gymorth oherwydd diffyg adnoddau<br>Nifer y goroeswyr sy'n adrodd cynnydd mewn ymdeimlad o ddiogelwch<br>Nifer y goroeswyr a deimlai eu bod wedi derbyn y wybodaeth a'r cyngor yr oedd eu hangen arnynt i gael mynediad at wasanaethau a'u bod yn medru gwneud dewisiadau gwybodus<br>Monitro'r canlyniadau i oroeswyr sy'n cael mynediad at y gwasanaethau uchod |
| **Cwestiwn 8** | **A oes yna unrhyw feysydd a fyddai'n elwa ar ymchwil bellach (h.y. y tu allan i gwmpas fframwaith y dangosydd hwn)?**<br><br>O safbwynt gwaith gyda drwgweithredwyr, fel y pwysleisiwyd eisoes, pryderwn fod y dangosyddion cyfredol yn canolbwyntio'n ormodol ar arestio ac ar ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Dylid ymchwilio i effeithiolrwydd asiantaethau eraill a'r cyhoedd ehangach wrth ddal drwgweithredwyr i gyfrif, er mwyn ceisio gweld a yw hyn yn gymorth i newid ymddygiad. Yn ogystal â hyn, dylid ystyried ymchwilio i sut y mae cyflogwyr yn rheoli drwgweithredwyr.<br><br>Dylid ystyired ymchwil i agweddau tuag at bob math o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol er mwyn gwella mesur 2.1 sydd ar hyn o bryd yn ystyried agweddau tuag at 'daro neu slapio partner' yn unig – gall agweddau tuag at bob math o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gan gynnwys trais rhywiol, enwaedu benywod, aflonyddu ayyb fod yn wahanol wrth i ffactorau eraill ddod i'r amlwg megis agweddau ynghylch menywod sy'n eu gosod eu hunain mewn sefyllfaoedd anniogel neu syniadau hiliol sy'n sail i agweddau tuag at enwaedu benywod.<br><br>Byddai ymchwilio i sut y mae ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc wedi cynyddu o ganlyniad i sesiynau codi ymwybyddiaeth yn yr ysgol yn gymorth i feithrin dealltwriaeth o effeithiolrwydd y sesiynau a lle bo angen gwelliannau. |

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |
Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk
Registered Charity Number: 1140962

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 9** | **Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai Dangosyddion Drafft Cenedlaethol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn arbennig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg.**<br>**Pa effeithiau ydych chi'n meddwl fyddai'n eu cael?**<br><br>**Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?**<br><br>Mae Cymorth i Ferched Cymru yn glir y dylid cynnig gwasanaethau yn y ddwy iaith. Mae'n rhaid i oroeswyr gael y cyfle i fynegi eu hunain yn Gymraeg ond hefyd i siarad â rhywun sy'n deall cyd-destun byw mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith; sy'n deall nad dim ond iaith ydyw ond diwyllaint hefyd. Mae staff sy'n siarad Cymraeg wedi pwysleisio bod rhai siaradwyr Cymraeg wedi dewis datgelu yn Saesneg, hyd yn oed pan wyddant fod y gweithiwr cymorth/llinell gymorth yn siardwr Cymraeg – gall y nifer sydd wedi defnyddio'r iaith Gymraeg fod yn is felly na'r nifer sy'n medru siarad yr iaith – ond fel y soniwyd eisoes, mae'n bwysig eu bod yn medru siarad â rhywun sy'n deall y cyd-destun.<br><br>Lle argymhellir defnyddio Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr i gasglu data, nid yw'n glir a roddir cyfle i gyfranogwyr ymateb yn Gymraeg. Ar hyn o bryd, nid oes yna gyfeiriad at ddarpariaethau Cymraeg (neu unrhyw iaith arall) o dan ansawdd a methodoleg Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr. Yn Holiadur Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2017-18 (o fis Ebrill 2017) nodwyd a chofnodwyd yr<br>"angen am yr iaith Gymraeg". Fodd bynnag, nid yw'n glir pa un a roddwyd adnoddau Cymraeg a chyfwelydd Cymraeg i'r cyfranogwyr Cymraeg eu hiaith; neu a oedd hyn yn angen heb ei ddiwallu a nodwyd drwy'r Arolwg. Os mai'r olaf ydyw, dylid cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater a sicrhau bod yr arolwg ar gael i gyfranogwyr sy'n dymuno ymateb yn Gymraeg. Yn ogystal â hyn, pe bai arolwg un-tro ehangach yn cael ei gynnal, byddai hyn hefyd yn gyfle i roi cyhoeddusrwydd ac i ganiatáu i'r cyfranogwyr ymateb trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael y cyfle i ymateb i'r cwestiynau hyn yn eu hiaith ddewisol; fel y byddai siaradwyr Saesneg.<br><br>Pryderwn nad oes gan wefan Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr rif Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a'i bod yn cynnwys rhif y llinell gymorth trais domestig genedlaethol Saesneg (a weithredir gan Women's Aid Federation England a Refuge) yn unig. Mae'n amlwg nad yw hyn yn ystyried galwyr sy'n dymuno cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg[3].<br><br>Mae Amcan 2 a'i ddangosydd a'i fesur cyfatebol yn cynnig cyfle allweddol i sicrhau bod yna ddarpariaeth drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'n amlwg y byddai'n eithriadol o werthfawr i blant a phobl ifanc allu cyfathrebu, dysgu am bwysigrwydd perthnasoedd iach a pharchus ac i allu datgelu unrhyw bryderon trwy gyfrwng eu hiaith ddewisol. |

[3] http://www.crimesurvey.co.uk/en/FurtherHelp.html

| | |
|---|---|
| | O safbwynt rhaglenni drwgweithredwyr a enwir o dan Amcan 3, mae hwn yn gyfle i sicrhau y cynigir y rhaglenni yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd, gall Respect gynnig cymorth 1:1 i ddrwgweithredwyr trwy gyfrwng y Gymraeg (Gogledd Cymru) ac mae gan wasanaethau yn Ne Cymru siaradwyr Cymraeg sy'n medru cynnig cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg pe bai galw.<br><br>Gellir cynnig holl hyfforddiant Cymorth i Ferched Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Yn olaf, o dan Amcan 6, mynediad cyfartal at wasanaethau arbenigol ar draws Cymru, mae'n rhaid cynnwys mynediad at siaradwyr sy'n medru'r Gymraeg. Mae Llinell Gymorth Byw Heb Ofn er enghraifft yn sicrhau bod yr holl staff sy'n ymateb i alwadau yn rhugl yn yr iaith Saesneg a'r Gymraeg. Dylai adnoddau fod ar gael i sicrhau bod pob gwasanaeth yn medru darparu gwasanaeth dwyieithog. |
| **Cwestiwn 10** | **Esboniwch hefyd os gwelwch yn dda sut y credwch y gellir ffurfio neu newid y Dangosyddion Drafft Cenedlaethol arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, ac er mwyn peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg nac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.**<br><br>O dan Amcan 1, Dangosydd 1 sy'n ymwneud ag adrodd, byddai Cymorth i Ferched Cymru yn argymell fod yna ffordd gadarn o adrodd yn yr iaith Gymraeg, sydd yr un mor gadarn ag adrodd yn Saesneg (er enghraifft nad oes yna unhryw gamau yn y broses adrodd lle mae'n rhaid i berson droi yn ôl at y Saesneg) ac y gellir defnyddio'r iaith Gymraeg ar bob cam o'r adrodd. Byddem hefyd yn annog ei bod yn glir y gall goroeswr ddatgelu yn Gymraeg ac yr hyrwyddir y gallu i ymateb yn Gymraeg.<br><br>I ailadrodd y pwyntiau a wnaed yng nghwestiwn 9, lle defnyddir data Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, dylid sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg a bod cyfranogwyr yn medru ymateb yn gyfan gwbl yn Gymraeg.<br><br>O dan Amcan 5, Dangosydd 8, y rheini sydd mewn swyddi perthnasol wedi'u hyfforddi i adnabod ac ymateb yn briodol; byddem yn annog bod gan weithwyr proffesiynol fynediad at hyfforddiant trwy gyfrwng yr iaith Saesneg a'r Gymraeg ac y sicrheir bod adnoddau ar gael i niferoedd digonol o weithwyr proffesiynol Cymraeg eu hiaith fedru derbyn hyfforddiant i sicrhau bod gan oroeswyr y dewis i ddatgelu yn Gymraeg pan fônt yn cysylltu â gwasanaethau. Pe bai'r holl weithwyr proffesiynol a hyfforddir yn siradwyr Saesneg yn unig, byddai hyn yn gosod siaradwyr Cymraeg sy'n fwy cyffyrddus yn adrodd yn Gymraeg o dan anfantais.<br><br>Yn olaf, o dan Amcan 6, Dangosydd 9, sicrhau y derbynnir cymorth priodol, byddem yn annog bod gan wasanaethau yr adnoddau i sicrhau darpariaeth gyfartal o siradwyr Saesneg a Chymraeg i gefnogi pob goroeswr. |

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 11** | **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi os gwelwch yn dda:**<br><br>**Nodwch yma os gwelwch yn dda:**<br><br>Yn gyffredinol pryderwn fod gormod o ganolbwyntio ar gam-drin domestig yn llawer o'r dangosyddion a'r mesurau a bod gor-ddibyniaeth ar gyfiawnder troseddol fel ffynhonnell data. Fel y pwysleiswyd drwyddi draw, bydd hyn yn cipio carfan gyfyngedig o oroeswyr a drwgweithredwyr. Mae angen gwneud mwy i edrych ar sut y gellir ystyried agenda ehangach Trais yn erbyn Menywodd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol trwy'r amcanion hyn a sut y caiff goroeswyr mathau eraill o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol eu heffeithio a'u cefnogi. Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth hefyd i sut y caiff goroeswyr a drwgweithredwyr eu cipio yn gynt trwy ddefnyddio ffynonellau data sy'n mesur ymyrraeth gynharach boed hynny drwy brosiectau megis Newid sy'n Para, neu gyswllt â'r Llinell Gymorh Byw Heb Ofn neu wasnaethau arbenigol eraill neu adnabod trwy wasanaethau statudol. |

**Atodiad B:** Defnyddiwch y templed hwn os gwelwch yn dda os ydych am newid dangosydd arfaethedig, os ydych yn dymuno disodli un o'r dangosyddion arfaethedig neu gynnig dangosydd ychwanegol. (cwblhewch un ffurflen ar gyfer pob dangosydd)

| |
|---|
| **Ydy'r dangosydd arfaethedig yn ddangosydd i ddisodli neu i wella dangosydd sy'n bodoli eisoes? Ticiwch un blwch os gwelch chi'n dda:**<br><br>**Disodli** [x] ***Gwelliant** [ ] **Newydd** [ ]<br><br>***Gall gwelliant gynnwys newidiadau i fesurau arfaethedig neu newidiadau/ychwanegol i ffynonellau data** |
| **Pa ddangosydd y mae'r dangosydd arfaethedig hwn yn gwella arno neu'n ei ddisodli?**<br><br>Dangosydd 1 |
| **Beth yw enw'r dangosydd sy'n ei ddisodli neu sy'n newydd?**<br><br>Cynnydd mewn cysylltiad â gwasanaethau |
| **Beth yw'r mesur(au) arfaethedig ar gyfer y dangosydd newydd?**<br><br>Rydym yn cynnig mesur y cynnydd mewn cyswllt â gwasnaethau arbenigol a Llinell Gymorth Byw Heb Ofn. |
| **Beth yw'r ffynhonnell data ar gyfer y Mesur hwn?**<br><br>Argymhellwn gasglu data ar nifer y bobl sy'n cael mynediad at wasnaethau gan Linell Gymorth Byw Heb Ofn a rhwydwaith cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru o wasanaethau arbenigol,. |

| |
|---|
| **Yn erbyn pa un o 6 o Amcanion Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol y mae'r dangosydd arfaethedig gwell/newydd yn adrodd?**<br><br>Amcan 1 |
| **Esboniwch os gwelwch yn dda pam mai'r dangosydd hwn yw'r mesur gorau ar gyfer Amcan Strategaeth Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn unol â'r meni prawf a nodwyd yn Adran 3.**<br><br>Teimlwn nad yw cynnydd mewn adrodd i asiantaethau yn mesur amcan 1. Nid yw adrodd o angenrheidrwydd yn dynodi newid mewn agwedd, yn arbennig gan fod y ffynhonnell data a awgrymir yn Ddata Troseddau wedi'u Cofnodi gan yr Heddlu. Gan nad yw pob goroeswr yn adrodd i'r heddlu, mae'n bosibl felly na chaiff cynnydd mewn ymybyddiaeth ei ddangos drwy'r llwybr hwn. Mae dangosyddion sy'n canolbwyntio ar ddata cyfiawnder troseddol yn ffocysu'n unig ar achosion risg uchel, tra bod data a gesglir gan aelodaeth Cymorth i Ferched Cymru a Llinell Gymorth Byw Heb Ofn yn ffurfio'r set fwyaf o ddata sy'n benodol i Gymru. |

**Atodiad B:** Defnyddiwch y templed hwn os gwelwch yn dda os ydych am newid dangosydd arfaethedig, os ydych yn dymuno disodli un o'r dangosyddion arfaethedig neu gynnig dangosydd ychwanegol. (cwblhewch un ffurflen ar gyfer pob dangosydd)

| |
|---|
| **Ydy'r dangosydd arfaethedig yn ddangosydd i ddisodli neu i wella dangosydd sy'n bodoli eisoes? Ticiwch un blwch os gwelch chi'n dda:**<br><br>**Disodli** ☐ ***Gwelliant** ☐ **Newydd** X<br><br>***Gall gwelliant gynnwys newidiadau i fesurau arfaethedig neu newidiadau/ychwanegol i ffynonellau data** |
| **Pa ddangosydd y mae'r dangosydd arfaethedig hwn yn gwella arno neu'n ei ddisodli?**<br><br>Dangosydd 9 |
| **Beth yw enw'r dangosydd sy'n ei ddisodli neu sy'n newydd?**<br><br>Cymorth a roddir i blant a phobl ifanc |
| **Beth yw'r mesur(au) arfaethedig ar gyfer y dangosydd newydd?**<br><br>Data ar y nifer o blant a phobl ifanc sy'n derbyn cymorth uniongyrchol gan weithwyr plant arbenigol o fewn y sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. |

| |
|---|
| |
| **Beth yw'r ffynhonnell data ar gyfer y Mesur hwn?**<br><br>Sector arbenigol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. |
| **Yn erbyn pa un o 6 o Amcanion Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol y mae'r dangosydd arfaethedig gwell/newydd yn adrodd?**<br><br>Amcan 6 |
| **Esboniwch os gwelwch yn dda pam mai'r dangosydd hwn yw'r mesur gorau ar gyfer Amcan Strategaeth Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn unol â'r meni prawf a nodwyd yn Adran 3.**<br><br>Mae dangosydd 9 yn nodi yn unig: 'dylai dioddefwyr dderbyn cymorth priodol', teimlwn fod amcan ar wahân sy'n mesur y gefnogaeth briodol i blant a phobl ifanc yn hanfodol yma. |

**Atodiad B:** Defnyddiwch y templed hwn os gwelwch yn dda os ydych am newid dangosydd arfaethedig, os ydych yn dymuno disodli un o'r dangosyddion arfaethedig neu gynnig dangosydd ychwanegol. (cwblhewch un ffurflen ar gyfer pob dangosydd)

| |
|---|
| **Ydy'r dangosydd arfaethedig yn ddangosydd i ddisodli neu i wella dangosydd sy'n bodoli eisoes? Ticiwch un blwch os gwelch chi'n dda:**<br><br>**Disodli** [ ] ***Gwelliant** [ ] **Newydd** [x]<br><br>*** Gall gwelliant gynnwys newidiadau i fesurau arfaethedig neu newidiadau/ychwanegol i ffynonellau data** |
| **Pa ddangosydd y mae'r dangosydd arfaethedig hwn yn gwella arno neu'n ei ddisodli?**<br><br>Dylid cynnwys dangosydd ychwanegol sy'n ymwneud ag agweddau heriol |
| **Beth yw enw'r dangosydd sy'n ei ddisodli neu sy'n newydd?**<br><br>Agweddau heriol tuag at Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol |
| **Beth yw'r mesur(au) arfaethedig ar gyfer y dangosydd newydd?**<br><br>Ystyried yr hyn y mae sefydliadau yn ei wneud i herio cam-drin |

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |
Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk
Registered Charity Number: 1140962

| |
|---|
| **Beth yw'r ffynhonnell data ar gyfer y Mesur hwn?**<br><br>Nifer y polisïau yn y gweithle a hyfforddiant a dderbyniwyd gan sefydliadau |
| **Yn erbyn pa un o 6 o Amcanion Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol y mae'r dangosydd arfaethedig gwell/newydd yn adrodd?**<br><br>Amcan 1 |
| **Esboniwch os gwelwch yn dda pam mai'r dangosydd hwn yw'r mesur gorau ar gyfer Amcan Strategaeth Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn unol â'r meni prawf a nodwyd yn Adran 3.**<br><br>Mae herio agweddau ac ymddygiad yn rhan bwysig o'r gwaith cyffredinol i ddileu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'n gymorth i greu diwylliant nad yw'n caniatáu cam-drin, a ddylai arwain ymhen amser at lai o bobl yn defnyddio trais a cham-drin. |

**Atodiad B:** Defnyddiwch y templed hwn os gwelwch yn dda os ydych am newid dangosydd arfaethedig, os ydych yn dymuno disodli un o'r dangosyddion arfaethedig neu gynnig dangosydd ychwanegol. (cwblhewch un ffurflen ar gyfer pob dangosydd)

| |
|---|
| **Ydy'r dangosydd arfaethedig yn ddangosydd i ddisodli neu i wella dangosydd sy'n bodoli eisoes? Ticiwch un blwch os gwelch chi'n dda:**<br><br>**Disodli** ☐ ***Gwelliant** ☐ **Newydd** ☒ X<br><br>*** Gall gwelliant gynnwys newidiadau i fesurau arfaethedig neu newidiadau/ychwanegol i ffynonellau data** |
| **Pa ddangosydd y mae'r dangosydd arfaethedig hwn yn gwella arno neu'n ei ddisodli?**<br><br>Mesur o foddhad dioddefwyr |
| **Beth yw enw'r dangosydd sy'n ei ddisodli neu sy'n newydd?**<br><br>Lefelau boddhad goroeswyr yn dilyn ymwneud â rhaglenni drwgweithredwyr |
| **Beth yw'r mesur(au) arfaethedig ar gyfer y dangosydd newydd?**<br><br>Lefelau boddhad |
| |

| |
|---|
| **Beth yw'r ffynhonnell data ar gyfer y Mesur hwn?**<br>Data ar foddhad dioddefwyr a gasglwyd yn dilyn ymwneud â rhaglen drwgweithredwyr a data sydd ar gael ar ganlyniadau llysoedd. |
| **Yn erbyn pa un o 6 o Amcanion Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol y mae'r dangosydd arfaethedig gwell/newydd yn adrodd?**<br><br>Amcan 3 |
| **Esboniwch os gwelwch yn dda pam mai'r dangosydd hwn yw'r mesur gorau ar gyfer Amcan Startegaeth Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn unol â'r meni prawf a nodwyd yn Adran 3.**<br><br>Er mwyn deall o ddifirf a fu rhaglen drwgweithredwyr yn llwydddiannus, mae'n hanfodol mesur barn y dioddefwr/goroeswr – a ydynt yn teimlo'n fodlon â'r canlyniadau, eu lles a'u hymdeimlad o ddiogelwch. |

**Atodiad B:** Defnyddiwch y templed hwn os gwelwch yn dda os ydych am newid dangosydd arfaethedig, os ydych yn dymuno disodli un o'r dangosyddion arfaethedig neu gynnig dangosydd ychwanegol. (cwblhewch un ffurflen ar gyfer pob dangosydd)

| |
|---|
| **Ydy'r dangosydd arfaethedig yn ddangosydd i ddisodli neu i wella dangosydd sy'n bodoli eisoes? Ticiwch un blwch os gwelch chi'n dda:**<br><br>**Disodli** ☐ ***Gwelliant** ☐ **Newydd** ☒<br><br>*** Gall gwelliant gynnwys newidiadau i fesurau arfaethedig neu newidiadau/ychwanegol i ffynonellau data** |
| **Pa ddangosydd y mae'r dangosydd arfaethedig hwn yn gwella arno neu'n ei ddisodli?** |
| **Beth yw enw'r dangosydd sy'n ei ddisodli neu sy'n newydd?**<br><br>Gwelliant mewn gwybodaeth am Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac ymateb iddynt yn dilyn hyfforddiant |
| **Beth yw'r mesur(au) arfaethedig ar gyfer y dangosydd newydd?**<br><br>Sut y gwreiddiwyd gwybodaeth i'r rheini a hyfforddwyd i adnabod arwyddion Trais yn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol |

**Beth yw'r ffynhonnell data ar gyfer y Mesur hwn?**

Data ar ganlyniadau sesiynau dilynol gyda hyfforddeion, ac a fu cynnydd yn nifer y goreswyr a nodwyd gan wasanaeth

**Yn erbyn pa un o 6 o Amcanion Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol y mae'r dangosydd arfaethedig gwell/newydd yn adrodd?**

Amcan 5

**Esboniwch os gwelwch yn dda pam mai'r dangosydd hwn yw'r mesur gorau ar gyfer Amcan Startegaeth Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn unol â'r meni prawf a nodwyd yn Adran 3.**

Un rhan yn unig o'r datrysiad yw hyfforddi staff, mae'n bwysig deall a yw'r wybodaeth a gafwyd o'r hyfforddiant wedi'i gwreiddio ac a yw arferion wedi newid o fewn sefydliadau er mwyn cael effaith ar oroeswyr sy'n ymgysylltu â'r gwasnaethau – er enghraifft, ydy rheolwyr yn cydnabod rôl bwysig y sefydliadau ac a ydynt felly wedi neilltuo adnoddau ar ei chyfer ac a yw hyn wedi arwain at fwy o ymholiadau nau ddatgeliadau?

**Atodiad B:** Defnyddiwch y templed hwn os gwelwch yn dda os ydych am newid dangosydd arfaethedig, os ydych yn dymuno disodli un o'r dangosyddion arfaethedig neu gynnig dangosydd ychwanegol. (cwblhewch un ffurflen ar gyfer pob dangosydd)

**Ydy'r dangosydd arfaethedig yn ddangosydd i ddisodli neu i wella dangosydd sy'n bodoli eisoes? Ticiwch un blwch os gwelch chi'n dda**

**Disodli** [X] ***Gwelliant** [ ] **Newydd** [ ]

*** Gall gwelliant gynnwys newidiadau i fesurau arfaethedig neu newidiadau/ychwanegol i ffynonellau data**

**Pa ddangosydd y mae'r dangosydd arfaethedig hwn yn gwella arno neu'n ei ddisodli?**

Dangosydd 10 a mesur 10.1.

**Beth yw enw'r dangosydd sy'n ei ddisodli neu sy'n newydd?**

Mynediad at wasanaethau a boddhad â nhw.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |
Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk
Registered Charity Number: 1140962

| |
|---|
| **Beth yw'r mesur(au) arfaethedig ar gyfer y dangosydd newydd?**<br><br>Faint o oroeswyr sy'n medru cael mynediad at wasanaethau ac a oedd yr ymyrraeth yn llwyddiannus. |
| **Beth yw'r ffynhonnell data ar gyfer y Mesur hwn?**<br><br>Dylai'r ffynhonnell data ganolbwyntio ar adborth gan oroeswyr a gasglwyd gan wasanaethau arbenigol. |
| **Yn erbyn pa un o 6 o Amcanion Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol y mae'r dangosydd arfaethedig gwell/newydd yn adrodd?**<br><br>Amcan 6 |
| **Esboniwch os gwelwch yn dda pam mai'r dangosydd hwn yw'r mesur gorau ar gyfer Amcan Startegaeth Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn unol â'r meni prawf a nodwyd yn Adran 3.**<br><br>Ni ddylai dangosydd 10 ganolbwyntio'n unig ar foddhad â'r system cyfiawnder troseddol gan fod hwn yn fesur cyfyngedig ac ni fydd yn adlewyrchu boddhad goroeswyr nad ydynt yn dilyn y llwybr hwn. Dylai adborth ystyried pob math o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. |

[i] Mae ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol trydydd sector yng Nghymru sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, y mae gennym gytundebau partneriaeth cenedlaethol â hwy er mwyn sicrhau y cydlynir ac integreiddir ein gwaith, yn cynnwys : Dylunio a Mynediad Aberconwy, Atal y Fro, Cymorth i Ferched Bangor a'r Cylch, Cymorth i Ferched Cymdeithasau Tai Clwyd Alyn (CAHA), *Stepping Stones*, *Safer Merthyr Tydfil*, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, *Calan DVS*, Cymorth i Fenywod Caerdydd, Cymorth i Fenywod Cyfannol, Uned Diogelu Trais Teuluol (*DASU*), Gorwel (Grŵp Cynefin), *Montgomeryshire Family Crisis Centre*, Cymorth i Fenywod Casnewydd, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych, Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan, Cymorth i Fenywod Rhondda Cynon Taf, Cymru Ddiogelach (gan gynnwys prosiect *Dyn*), Cymorth i Fenywod Abertawe, *Threshold*, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru a Chanolfan Trais a Cham-drin Rhywiol (*RASASC*) Gogledd Cymru.